**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – Y TÎM COMISIYNU**

**ADRODDIAD MONITRO CONTRACT**

**Enw'r Darparwr:** Reach

**Enw'r Gwasanaeth Gofal Ychwanegol:** Plas Hyfryd

**Dyddiad yr Ymweliad:** Dydd Mawrth 13eg Chwefror 2018
Dydd Mercher 21ain Chwefror 2018

**Y Swyddog a fu'n Ymweld:** Caroline Roberts, Swyddog Monitro Contractau

**Yn bresennol:** Llian Parry, Rheolwr y Gwasanaethau Gofal
Caroline McCarthy, Uwch Reolwr Gweithredol (yr ymweliad cyntaf yn unig)

## 1. Cefndir

1.1 Bu Reach yn darparu cymorth gofal cartref ym Mwrdeistref Caerffili am nifer o flynyddoedd, o fewn ystod o wasanaethau byw â chymorth a gofal ychwanegol. Yn Rhagfyr 2017, dyfarnwyd contract newydd i Reach i barhau i ddarparu gofal a chymorth ym Mhlas Hyfryd.

1.2 United Welsh yw landlord Plas Hyfryd ac mae 49 o fflatiau yno.

1.3 Mae'r ystod o dasgau gofal a chymorth a ddarperir gan Reach o dan y contract yn cynnwys gofal personol, (e.e. cymorth â mynd i'r bath, ymolchi, gwisgo, cymryd meddyginiaeth, defnyddio'r toiled), gofal maeth, (e.e. cymorth â bwyta ac yfed, paratoi bwyd a diod, a monitro'r bwyd a'r ddiod a gymerir), gofal symudedd, (e.e. cymorth â mynd i'r gwely a chodi ohono, symud yn gyffredinol), a gofal domestig, (e.e. cymorth â glanhau, siopa, gwaith tŷ arall, trefnu apwyntiadau). Mae staff ar y safle bob amser a gall y bobl sy'n byw ym Mhlas Hyfryd gysylltu â nhw ar unrhyw adeg trwy ddefnyddio system Tunstall.

1.4 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad, bydd y darparwr yn cael camau unioni a chamau datblygu i'w cwblhau. Mae'r camau unioni yn rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (yn ôl y ddeddfwriaeth neu'r contract â CBSC), ac mae'r camau datblygu yn argymhellion sy'n ymwneud ag arferion da.

## 2. Canfyddiadau

### 2.1 Camau Unioni Blaenorol

2.2 Mae angen i Reach sicrhau bod dogfennau asesu anghenion yn cael eu llenwi ar gyfer yr holl denantiaid newydd, cyn iddynt symud i fyw yn y cynllun. (SOG 2.1)
**Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus.**

2.3 Dylai'r cynlluniau gwasanaethau fod yn fanwl ac yn gynhwysfawr, a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Dylai'r cynlluniau hyn gyfeirio hefyd at y deilliannau y cytunwyd arnynt a sut y bwriedir eu cyflawni. (SOG 4.2, Manyleb y Gwasanaeth 12.3 a 12.4). Graddfa amser: O fewn tri mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. **Canfyddiadau:** Roedd y Cynlluniau Gwasanaethau a welwyd yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth o Gynllun Gofal yr Awdurdod Lleol. **Cyflawnwyd**

2.4 Mae angen i Reach sicrhau bod y cymorth a ddarperir amser cinio yn cael ei gofnodi yn y cofnodion dyddiol. (Safon Ofynnol Genedlaethol 16.1) Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau:** Gwelwyd bod yr ymweliadau amser cinio'n cael eu cofnodi ar wahân. **Cyflawnwyd.**

2.5 Mae angen cwblhau siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaethau (MAR) fel y bydd hynny'n briodol gan lofnodi am bob meddyginiaeth a ddarperir yn unol â hynny. (SOG 10.4, Manyleb y Gwasanaeth 3.2) Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau:** Gwelwyd bod y siartiau MAR yn cael eu llofnodi yn unol â hynny. **Cyflawnwyd.**

2.6 Dylid adolygu'r cynlluniau gwasanaethau o leiaf bob chwarter, a'u diweddaru pan fydd anghenion y defnyddwyr yn newid. Yn ogystal, dylid cofnodi hefyd pan na fydd newid. (Manyleb y Gwasanaeth 12.3) Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau:** Gwelwyd bod adolygiadau'n digwydd yn rheolaidd. **Cyflawnwyd.**

2.7 Dylai'r darparwr sicrhau parhad gofal da. (SOG 7.3, Manyleb y Gwasanaeth 6) Graddfa amser: O fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. **Canfyddiadau:** Wrth edrych ar ffeiliau 3 thenant dros gyfnod o ddwy neu dair wythnos, gwelwyd bod tenantiaid yn dal i gael nifer fawr o ofalwyr gwahanol. **Heb ei gyflawni.**

2.8 Mae gofyn bod Reach yn cynnal hapwiriadau yn rheolaidd er mwyn gwirio ansawdd a dibynadwyedd y gofal y mae'i staff yn ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. (SOG 21.3, Manyleb y Gwasanaeth 13.7) **Graddfa amser:** Dylai pob aelod o staff gael hapwiriad o fewn 3 mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. **Canfyddiadau:** Gwelwyd ffeiliau dau aelod o staff, yr oedd un ohonynt yn benodiad newydd ac felly, nid oedd hapwiriad wedi digwydd. Fodd bynnag, roedd yr ail ffeil a welwyd yn dangos bod hapwiriadau'n digwydd yn rheolaidd, gyda'r un diweddaraf wedi'i gofnodi ar 17 Ionawr 2018. **Heb ei gyflawni.**

2.9 Mae gofyn bod Reach yn llunio adroddiad sicrhau ansawdd ac yn ei anfon at y tîm comisiynu bob blwyddyn, (SOG 27.5) Graddfa amser: Adroddiad i'w gwblhau a'i anfon at y Tîm Comisiynu o fewn 3 mis. **Canfyddiadau:** Lluniwyd adroddiad Sicrhau Ansawdd; fodd bynnag, nid yw'n cael ei rannu gyda'r tenantiaid, teuluoedd/ffrindiau/perthnasau neu randdeiliaid. **Cyflawnwyd yn rhannol.**

2.10 Dylai'r holl staff gael rhaglen sefydlu strwythuredig ar ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth a dylid cadw cofnod o hynny. (SOG 19.2, Manyleb y Gwasanaeth 13.4) Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus. **Canfyddiadau:** Gwelwyd ffeil un aelod newydd o staff ac roedd rhaglen sefydlu lawn wedi'i chynnal a'i llofnodi gan y mentor. **Cyflawnwyd.**

2.11 Sicrhau bod yr amseroedd galw a ffefrir ac y cytunwyd arnynt gyda'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi yn y cynllun cyflenwi gwasanaethau neu mewn dogfen arall (SOG 7.2) Graddfa amser: Mae angen cofnodi'r amseroedd o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn a dylid parhau i wneud hynny ar gyfer lleoliadau yn y

dyfodol. **Canfyddiadau:** Mae amserlen gwasanaethau unigol ym mhob ffeil. **Cyflawnwyd**

2.12 **Camau Datblygu Blaenorol**

2.13 Anogir Reach i lunio hanes bywyd cyflawn (neu ddarpariaeth debyg) ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth. **Canfyddiadau:** Nid oedd tystiolaeth o hanesion bywyd yn y tair ffeil a welwyd, dim ond yr hanesion a oedd yn rhan o Gynllun Gofal yr Awdurdod Lleol. **Heb ei gyflawni.**

2.14 Dylai Reach gynnal archwiliad ffurfiol ac ysgrifenedig o'r cofnodion dyddiol er mwyn sicrhau bod modd mynd ar drywydd materion nad adroddwyd arnynt, a bod modd rhoi sylw i unrhyw faterion o ran sut neu beth y mae'r staff yn ei gofnodi. **Canfyddiadau:** Mae'r Gweithiwr Cymorth Arweiniol yn cynnal archwiliadau wythnosol ac yn eu rhannu gyda'r Rheolwr. **Cyflawnwyd.**

2.15 Anogir Reach i gofnodi manylion y staff sydd â chymwysterau NVQ ar y matrics hyfforddiant. **Canfyddiadau:** Bellach, cofnodir cymwysterau NVQ priodol ar y matrics hyfforddiant. **Cyflawnwyd.**

2.16 Dylai Reach ystyried cadw copi o dystlythyrau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ffeiliau'r staff ym Mhlas Hyfryd. **Canfyddiadau:** Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r wybodaeth hon wedi cael ac yn cael ei chopïo a'i chadw yn ffeiliau'r gweithwyr newydd. **Cyflawnwyd.**

**3. Perfformiad y Gwasanaeth**

3.1.1 Cyn yr ymweliad, gofynnwyd am adborth gan weithwyr cymdeithasol ac eraill sy'n ymwneud â'r gofal a ddarperir ym Mhlas Hyfryd. Ni ddaeth yr un gŵyn ffurfiol trwy law Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, a bu saith cyswllt â'r Tîm Diogelu yn y Gwasanaethau Oedolion i ofyn am gyngor a chymorth.

3.1.2 Defnyddir ffonau Tunstall ac mae hyn yn gymorth o ran cysylltu â thenantiaid a staff gofal.

3.1.3 Cyn cynnal yr ymweliad monitro lle rhoddwyd rhybudd, ymwelodd y Swyddog Monitro Contractau â Phlas Hyfryd i arsylwi ar y trefniadau amser cinio a chafodd gyfle i siarad â rhai o'r preswylwyr sy'n derbyn Cymorth Ychwanegol. Gwelwyd bod yr amser bwyd yr arsylwyd arno yn brofiad cadarnhaol a bod y staff arlwyo'n ofalus iawn o'r tenantiaid.

3.1.4 Mae'r amserlenni i'w gweld yn y swyddfa ac fe'u trefnir mewn ffordd sy'n sicrhau bod amser priodol wedi'i drefnu ar gyfer pob ymweliad. Mae'r tenantiaid yn gwybod ymlaen llaw pryd y byddant yn derbyn gofal a chymorth gan fod yr amserlenni yr un fath o un wythnos i'r nesaf. Roedd pob un o'r ffeiliau tenant a welwyd yn cynnwys Amserlen Gwasanaethau a nodai'r amser a ffefrir gan yr unigolion.

3.1.5 Darperir rotâu i'r aelodau o'r staff. Mae'r rotâu yn rhoi cyfarwyddyd i'r staff ynghylch y cymorth sy'n ofynnol ac maent yn caniatáu i'r gofalwyr gofnodi'r union amser cyrraedd a'r amser pan fyddant yn gadael y fflat. Wrth edrych ar y rotâu, roedd yn amlwg nad

oedd un aelod o staff yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael a thynnwyd sylw'r Rheolwr at hyn.

3.1.6 Trefnir y rotâu er mwyn sicrhau bod nifer y gofalwyr yn cynyddu ac yn lleihau yn ystod y dydd yn ôl y galw.

3.1.7 Gall y tenantiaid gael cymorth ar bob adeg o'r dydd trwy ddefnyddio'r system teleofal (Tunstall). Ar adeg yr ymweliad, roedd un unigolyn wedi dysgu yn ddiweddar sut yr oedd gwneud taliad dros y ffôn; cysylltwyd â'r Rheolwr trwy alwad Tunstall gan fod yr unigolyn yn cael anhawster. Fodd bynnag, pan ddychwelodd i'r swyddfa, eglurodd y Rheolwr fod yr unigolyn wedi datrys y broblem yn barod cyn iddi gyrraedd y fflat.

3.1.8 Mae aelod o staff ar y safle bob amser, gan gynnwys sifft nos (sifft gysgu).

3.1.9 Bu'r swyddog a fu'n ymweld yn siarad ag un o'r tenantiaid a'i theulu er mwyn cael adborth. Cofiai'r teulu fod yr asiantaeth ofal wedi cysylltu â'u perthynas cyn bod ei thenantiaeth yn dechrau er mwyn egluro'r gwasanaethau a gynigid ac i egluro ystyr Gofal Ychwanegol. Fodd bynnag, ni allai'r teulu na'r tenant gofio derbyn pecyn o wybodaeth ysgrifenedig, h.y. pecyn croeso a thelerau ac amodau.

3.1.10 Ar un adeg, teimlai'r tenant fod yr ymweliadau gofal yn rhy gynnar ac felly codwyd y mater gyda'r Rheolwr. Newidiwyd yr ymweliadau gofal wedyn yn unol â chais y tenant.

3.1.11 Roedd y tenant yn ymwybodol o'r weithdrefn gwynion a dywedodd na fyddai'n meddwl ddwywaith cyn trafod pryderon neu anfodlonrwydd gyda'r Rheolwr.

3.1.12 Dywedodd y tenant fod y staff gofal yn ei thrin ag urddas a pharch ac anaml iawn y byddant yn peidio â galw. Mae'r gofalwyr yn cyflawni'r tasgau y mae gofyn iddynt eu cyflawni a dywedodd y tenant ei bod yn cael gwneud ei dewisiadau ei hun.

3.1.13 Yn anffodus, dywedodd y tenant nad yw'r amser gan y gofalwyr i eistedd a sgwrsio yn aml ac os byddant yn hwyr yn galw (a oedd yn digwydd yn anfynych yn ôl yr adroddiadau), nid ydynt yn rhoi gwybod i'r tenant trwy system Tunstall.

3.1.14 Er bod y swyddog a fu'n ymweld wedi arsylwi ar unigolion yn cysylltu â'r gymuned, teimlai'r tenant y cyfwelwyd â hi y gellid gwneud mwy i'w helpu i gysylltu â'r gymuned.

3.1.15 Pan ofynnwyd a oedd y tenant yn hapus (ai peidio) â'r gwasanaeth, atebodd nad oedd yn hapus. Fodd bynnag, eglurodd y teulu mai'r rheswm am hynny oedd bod y tenant yn dymuno mynd yn ôl i fyw yn y gymuned; fodd bynnag, mae'r tenant a'r teulu'n gwybod na fyddai hynny'n bosibl, yn anffodus, am resymau diogelwch.

3.2 <u>Dogfennau a Chynlluniau Gwasanaethau</u>

3.2.1 Darparwyd dogfennau i'r swyddog a fu'n ymweld o gwpwrdd cloadwy yn swyddfa'r Rheolwr.

3.2.2 Gwelwyd ffeil tri thenant ac roedd llun o'r tenant ym mhob ffeil.

3.2.3 Roedd Cynllun Gofal yr Awdurdod Lleol ynghyd â Chynllun Gwasanaethau Reach ym mhob ffeil. Roedd y Cynllun Gwasanaethau'n fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth

werthfawr o'r Cynllun Gofal. Fodd bynnag, gwelodd y swyddog a fu'n ymweld fod hanes bywyd yr unigolyn ar gael yng nghynllun gofal yr Awdurdod Lleol yn unig ac nid yn y Cynllun Gwasanaethau.

3.2.4 Roedd un tenant wedi llofnodi Cynllun Gwasanaethau, roedd perthynas wedi llofnodi un arall ac yn achos un tenant, roedd y Rheolwr wedi llofnodi ar ei ran ar ôl darllen y ddogfen i'r tenant. Felly, roedd yn amlwg fod y tri thenant wedi ymwneud â datblygu eu Cynllun Gwasanaethau.

3.2.5 Roedd y Cynlluniau Gwasanaethau'n fanwl iawn, gan amlinellu'r cymorth sy'n ofynnol, sut y dylid ei ddarparu a pha elfennau o'r gofal y byddai'r tenant yn hoffi eu gwneud ei hun. Mae'r Cynllun Gwasanaethau'n pennu hefyd sut y dylai gofalwyr fynd i mewn i bob fflat.

3.2.6 Adolygwyd y Cynlluniau Gwasanaethau yn Rhagfyr 2017 ac mae hynny'n awgrymu bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd.

3.2.7 Mae Reach yn defnyddio system goleuadau traffig ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty. Trefnir yr wybodaeth gan ddefnyddio'r cod lliwiau priodol, h.y. Coch – Pwysig: pethau y bydd angen i weithwyr proffesiynol eu gwybod am y tenant (enw'r meddyg teulu, alergeddau, ac ati), Oren – y pethau sy'n bwysig i mi: cyfathrebu, bwyta/llyncu, poen, symudedd, ac ati Gwyrdd – Fy hoffterau a'm casbethau.

3.2.8 Gwelwyd bod Asesiadau Risg priodol wedi'u llunio ar gyfer y risgiau a nodwyd, h.y. Codi a Chario, Meddyginiaethau, cyllid, cyflwr y croen.

3.2.9 Llofnodwyd a dyddiwyd y cofnodion dyddiol a chofnodwyd amser dechrau a gorffen pob ymweliad. Fodd bynnag, ni chofnodwyd ymweliadau amser cinio. Pan drafodwyd y mater hwn gyda'r Rheolwr, dangoswyd i'r swyddog a fu'n ymweld fod yr holl ymweliadau amser cinio a ddarparwyd wedi'u cofnodi ar daflen ar wahân. Y rheswm am gadw cofnod ar wahân yw bod rhai unigolion yn cael cymorth yn yr ystafell fwyta yn unig ac ni ddarperir cymorth arall iddynt.

3.2.10 Roedd tystiolaeth fod y staff yn gwybod sut mae cysylltu â gweithwyr proffesiynol priodol os bydd angen, h.y. Therapyddion Galwedigaethol, Meddyg Teulu y tu allan i oriau.

3.3 <u>Recriwtio, Hyfforddi a Goruchwylio</u>

3.3.1 Gwelodd y swyddog a fu'n ymweld ddwy ffeil staff a gedwid mewn cwpwrdd cloadwy yn swyddfa'r Rheolwr ym Mhlas Hyfryd. Roedd llun diweddar o'r staff a chofnod manwl o'r cyfweliad yn y ddwy ffeil. Roedd y cofnod yn cynnwys tystiolaeth fod y ddau ymgeisydd wedi ateb chwe chwestiwn ynghylch Cynlluniau Gofal, dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolion, Cynlluniau Cymorth, ac ati. Defnyddiwyd trefn sgorio yn y ddau gyfweliad, a ddangosai sut yr oedd yr ymgeiswyr wedi ateb y cwestiynau i safon dderbyniol.

3.3.2 Roedd hanes cyflogaeth llawn ac ni welwyd bylchau.

3.3.3 Roedd tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn un ffeil ond nid yn y llall. Trafodwyd hynny gyda'r Rheolwr a eglurodd mai'r drefn ers y llynedd oedd bod copi o dystysgrifau pob aelod newydd o'r staff yn cael ei gadw yn y ffeil. Yn achos y ffeil nad

oedd yn cynnwys tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cedwir yr wybodaeth yn y Brif Swyddfa yng Nghasnewydd.

3.3.4 Nid oedd tystlythyrau yn y naill ffeil na'r llall ac eglurwyd bod yr wybodaeth honno'n cael ei chadw yn y Brif Swyddfa.

3.3.5 Edrychodd y swyddog a fu'n ymweld ar y matrics hyfforddiant ac yr oedd yn amlwg bod hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer yr holl staff, ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd y matrics hyfforddiant yn rhestru'r lefelau NVQ sydd gan staff unigol a dyddiad cyflawni'r cymhwyster.

3.3.6 Roedd yr hyfforddiant gorfodol yn gyfredol hefyd.

3.3.7 Darperir rhaglen sefydlu lawn i'r staff newydd, ac fe'i llofnodir gan y mentor. Gwelwyd hefyd fod y staff yn cael eu cysgodi pan oeddent yn dechrau eu dyletswyddau.

3.3.8 Cynhelir profion cymhwysedd bob 3-6 mis, ynghyd â hapwiriadau. Mae cyfle i denant wneud sylwadau yn ystod hapwiriad, os yw'n dymuno gwneud hynny.

3.3.9 Gwelwyd bod Cofnod Datblygu Personol (CDP) mewn un o'r ffeiliau ond nid yn yr ail. Y rheswm am hynny oedd bod yr ail ffeil yn perthyn i aelod newydd o'r staff.

3.3.10 Yn y deuddeg mis diwethaf, mae 3 aelod o staff wedi rhoi'r gorau i weithio i Reach. Salwch tymor hir oedd i gyfrif am y tri. Fodd bynnag, eglurodd y Rheolwr fod y lefelau staffio yn gyson bellach.

3.3.11 Y contract cyflogaeth mwyaf yw 37 awr; fodd bynnag, mae'r staff yn ymwybodol o'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd os byddant yn gweithio mwy nag 48 awr.

3.3.12 Cynhelir a chofnodir cyfarfodydd tîm bob tri mis. Awgrymwyd i'r Rheolwr y dylai'r staff lofnodi a dyddio'r cofnodion i ddangos eu bod wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf a rennir yn y cyfarfod.

3.3.13 Rhannwyd copi o'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd (Chwefror 2017) gyda'r swyddog a fu'n ymweld. Roedd hwnnw'n cynnwys trosolwg o'r gwasanaeth a sylwadau neu adborth gan y tenantiaid.

3.3.14 Yn ogystal, mae'r Adroddiad Sicrhau Ansawdd yn rhoi sylw i weledigaeth y sefydliad, yr ethos rheoli, hyfforddiant a datblygu, cynlluniau gofal, hanes bywyd y tenantiaid, adolygiadau rheolaidd, eiriolaeth, ac ati. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i'r swyddog a fu'n ymweld nad oedd yr adroddiad yn cael ei rannu â'r tenantiaid, teuluoedd/ffrindiau/cynrychiolwyr na rhanddeiliaid.

## 4. <u>Camau Unioni</u>

4.1 Tra bydd adroddiad ar Sicrhau Ansawdd yn cael ei lunio bob blwyddyn, dylid rhannu'r ddogfen gyda'r tenantiaid, teuluoedd/cynrychiolwyr, rhanddeiliaid, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Awdurdod Lleol (SOG 27.5) **Graddfa amser: O ddatblygiad adroddiad Sicrhau Ansawdd 2018**

4.2 Dylai'r cofnodion dyddiol ganolbwyntio mwy ar yr unigolyn, gan ddisgrifio'i hwyliau, hoffterau neu gasbethau, ac ati (SOG 16.1) **Graddfa amser: Ar unwaith ac yn barhaus**

## 5. Camau Datblygu

5.1 Bod yr holl staff gofal yn nodi'r union amser cyrraedd a gadael ar y rotâu a ddarparwyd at ddibenion archwilio mewnol/allanol.

5.2 Bod y dyddiad yn cael ei nodi ar frig pob dalen yn y cofnod dyddiol.

5.3 Bod y ffeiliau'n cynnwys manylion hanes bywyd pob tenant.

5.4 Os bydd angen dau ofalwr, dylai'r ddau lofnodi'r amserlenni a thaflen y cofnod dyddiol.

5.5 Bod y staff yn darllen ac yn llofnodi cofnodion y cyfarfodydd staff.

## 6. Casgliad

6.1. Amlygwyd nifer o gamau unioni yn yr adroddiad monitro diwethaf yn 2017. Roedd y swyddog a fu'n ymweld yn falch o weld bod y Rheolwr a'r staff wedi gweithio'n ddiwyd ar y gwelliannau y gofynnwyd amdanynt, a nodwyd, yn ystod ymweliad 2018, fod pob maes wedi'i gyflawni.

6.1.2 Carai'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i staff Plas Hyfryd am eu croeso yn ystod yr ymweliad.

**Awdur:** Caroline Roberts
**Teitl Swydd:** Swyddog Monitro Contractau
**Dyddiad:** 08 Mawrth 2018

**D.S.** Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael hefyd i ddefnyddwyr y gwasanaeth a/neu i'w teuluoedd os gofynnir am gael eu gweld.